

Cronfa Bensiynau Clwyd

Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Medi 2024



Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Nodau ac Amcanion	3
I bwy mae'r Polisi hwn yn Berthnasol	4
Cyd-destun deddfwriaethol a chysylltiol	5
Gofynion Eraill Awdurdod Gweinyddu	8
Polisi Gwrthdaro Buddiannau Partneriaeth Pensiwn Cymry	9
Beth yw Gwrthdaro neu Wrthdaro Posibl a sut fydd yn cael ei reoli?	10
Mân Roddion.....	11
Cyfrifoldeb.....	11
Gweithdrefn Weithredol.....	11
Monitro ac Adrodd.....	13
Risgiau Allweddol	13
Costau	14
Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori	14
Gwybodaeth Bellach	14
Atodiad 1: Enghreifftiau o Wrthdaro Buddiannau Posibl	15
Atodiad 2: Datgan Buddiant sy'n ymwneud â rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.....	18
Atodiad 3: Cronfa Bensiynau Clwyd Cofrestr Gwrthdaro Buddiannau Posibl a Gwirioneddol	19

Cyflwyniad

Gwrthdaro buddiannau yw buddiant ariannol neu arall sy'n debygol o ragfarnu arfer swyddogaethau unigolyn. Gall wrthdaro buddiannau ddigwydd pan:

- fydd y rhai gyda chyfrifoldebau awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol â rolau eraill, er enghraifft fel aelod o'r cynllun, fel gweithiwr neu aelod etholedig i gyflogwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- ymgynghorwyr i gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynghori mwy nac un awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- y rhai sydd ynghlwm rheoli neu gynghori cronfa gyda chysylltiadau personol, busnes neu eraill sy'n gwrthdaro, neu'n cael eu hystyried fel gwrthdaro, gyda'u rôl o reoli neu gynghori cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Nid yw dyletswyddau cyfraith gyhoeddus ac ymddiriedol yr awdurdodau gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, i weithredu er budd pennaaf buddiolwyr a chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun, yn golygu na ddylent gael unrhyw rolau neu gyfrifoldebau eraill a all arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl. Fodd bynnag, mae'n arfer da i nodi mewn polisi, fel hwn, sut y rheolir unrhyw wrthdaro o'r fath neu wrthdaro posibl.

Hwn yw Polisi Gwrthdaro Buddiannau Cronfa Bensiwn Clwyd, a reolir gan Gyngor Sir y Fflint (yr "Awdurdod Gweinyddu").

Mae'r Polisi yn nodi sut ydym yn canfod ac yn rheoli gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl ac yn ategu at ddogfennau cyfansoddiadol eraill, gan gynnwys Codau Ymddygiad amrywiol. Mae'n gymwys i aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn, swyddogion ac ymgynghorwyr. Ein nod yw sicrhau nad yw'r unigolion hynny'n gweithredu'n amhriodol neu'n rhoi'r argraff eu bod wedi gweithredu'n amhriodol. Rydym yn gweld hyn yn rhan o lywodraethu da, gan annog tryloywder a lleihau'r risg o unrhyw fater yn niweidio'r broses wneud penderfyniadau neu reoli'r Gronfa.

Nodau ac Amcanion

Datganiad o Fwriad Cronfa Bensiynau Clwyd yw:

- i gael ei adnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'n holl gwsmeriaid
- meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg, llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu'r gwasanaethau nodedig, o'r ansawdd gorau, o fewn ein hadnoddau
- gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni

O ran llywodraethu'r Gronfa, ein hamcanion yw:

- Gweithredu er lles gorau aelodau a chyflogwyr y Gronfa

- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso gwneud penderfyniadau deallus, a gefnogir gan gyngor, polisiau a strategaethau priodol
- Sicrhau bod y Gronfa Bensiynau yn cael ei rheoli a'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol
- Gweithredu'n onest a bod yn atebol i fudd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn ac â sail dda
- Deall a monitro risg
- Ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arweiniad arfer gorau
- Mynegi ei amcanion yn glir, a sut y mae'n bwriadu cyflawni'r amcanion hynny trwy gynllunio busnes, a mesur a monitro llwyddiant yn barhaus

Mae canfod a rheoli gwrthdaro buddiannau gwirioneddol a phosibl yn hanfodol i ni gyflawni ein hamcanion llywodraethu.

I bwy mae'r Polisi hwn yn Berthnasol

Mae'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau yn gymwys i:

- holl aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau, gan gynnwys cynrychiolwyr y cyflogwyr ac aelodau'r cynllun, p'un ai ydynt yn aelodau â phleidlais ai peidio
- Tîm Rheoli'r Gronfa Bensiynau, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol (fel Swyddog Adran 151 Statudol) a'r Rheolwr Corfforaethol: Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Prif Weithredwr (fe'i cyfeirir gyda'i gilydd fel uwch swyddogion y Gronfa yn y Polisi hwn)
- holl ymgynghorwyr a chyflenwyr y Gronfa, boed hynny'n cynghori'r Bwrdd Pensiwn, Pwyllgor y Gronfa Bensiynau neu swyddogion y Gronfa

Bydd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn monitro gwrthdaro posibl i bob swyddog sy'n ymwneud â rheolaeth ddyddiol y Gronfa Bensiynau ac yn amlygu'r Polisi hwn iddyn nhw fel mae'n ystyried yn briodol.

Mae'r Polisi hwn a'r mater o wrthdaro buddiannau yn gyffredinol yn gorfod cael ei ystyried yng ngoleuni rôl pob unigolyn, boed hon yn rôl reoli, cynghori neu gynorthwyo ac mae'n cynnwys cyfrifoldebau sy'n cynrychioli'r Gronfa ar bwyllgorau, grwpiau a chyrff eraill.

Yn y Polisi, mae **ymgynghorwyr** yn cynnwys holl bartïon sy'n darparu cyngor a gwasanaethau i ni mewn perthynas â materion y gronfa pensiynau. Mae hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i actiwariaid, ymgynghorwyr buddsoddi, ymgynghorwyr annibynnol, ymgynghorwyr budd-dal, gweinyddwyr trydydd parti, rheolwyr cronfa, cyfreithwyr, ceidwaid a darparwyr AVC Lle mae penodiad ymgynghorwr gyda chwmni yn hytrach nag unigolyn, mae cyfeiriad at "ymgynghorwyr" at yr ymgynghorydd/ymgynghorwyr arweiniol ar gyfer rhoi cyngor a gwasanaethau i ni yn hytrach na'r cwmni cyfan.

Wrth dderbyn unrhyw rôl o fewn y Polisi hwn, mae'r unigolion hynny yn cytuno bod yn rhaid iddynt:

- gysnabod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sydd ganddynt;
- bod yn agored gyda ni ac unrhyw gorff arall maent yn cael eu cynrychioli gan yr Awdurdod Gweinyddu, ar unrhyw union neu wrthdaro buddiannau posibl sydd ganddynt;
- mabwysiadu atebion ymarferol i reoli'r gwrthdaro hwnnw; ac
- cynllunio ymlaen llaw a chytuno gyda ni ar sut byddant yn rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi yn y dyfodol.

Mae'r gweithdrefnau a amlinellir yn nes ymlaen yn y Polisi hwn yn darparu fframwaith i bob unigolyn ddiwallu'r gofynion hyn.

Cyd-destun deddfwriaethol a chysylltiol

Mae'r prif ofynion o ran rheoli gwrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau posibl i'r sawl sy'n ymwneud â chronfeydd CPLIL wedi eu cynnwys mewn amrywiol elfennau o ddeddfwriaeth a chanllawiau. Mae'r rhain wedi eu hystyried ymhellach isod.

Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013

Mae Adran 5 o'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i reolwr y cynllun (yn achos y CPLIL, dyma'r awdurdod gweinyddu) fod yn fodlon nad oes gan aelod o'r Bwrdd Pensiynau wrthdaro buddiannau adeg penodi nac o dro i dro yn dilyn hynny. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau Bwrdd Pensiwn (neu aelodau etholedig) ddarparu gwybodaeth resymol i reolwr y cynllun i'r diben hwn.

Mae'r Ddeddf yn diffinio gwrthdaro buddiannau fel "buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debyg o fod yn niweidiol i arferion swyddogaethau'r unigolyn fel aelod o'r bwrdd (ond nid yw'n cynnwys budd ariannol nac unrhyw fudd arall sy'n codi drwy aelodaeth y cynllun neu unrhyw gynllun cysylltiol yn unig)".

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr y cynllun ystyried unrhyw ganllawiau o'r fath a gyhoeddir gan y bwrdd cyngori cynllun cenedlaethol.

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013

Mae Rheoliad 108 y Rheoliadau hyn yn gweithredu gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus (fel yr amlinellwyd uchod) i'r CPLIL, gan osod dyletswydd ar bob awdurdod gweinyddu i fodloni nad yw aelodau Bwrdd Pensiwn yn gwrthdaro buddiannau pan benodir nac yn ystod eu cyfnod fel aelodau o'r bwrdd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelodau bwrdd pensiwn hynny ddarparu gwybodaeth resymol i'r awdurdod gweinyddu yn y cyswllt hwn.

Mae Rheoliad 109 yn nodi bod yn rhaid i bob awdurdod gweinyddu ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Byrddau Pensiwn. Yn ogystal, mae rheoliad 110 yn nodi fod gan y bwrdd cyngori cynllun cenedlaethol swyddogaeth **i roi cyngor i awdurdodau gweinyddu a Byrddau Pensiwn** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Mae bwrdd ymgynghorol y cynllun cenedlaethol Cynllun Pensiwn

lywodraeth Leol wedi cyhoeddi canllaw ar greu Byrddau Pensiwn sy'n cynnwys adran ar wrthdaro buddiannau. Mae'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau hwn wedi'i ddatblygu gan gymryd y canllawiau hynny i ystyriaeth.

Deddf Pensiynau 2004

Roedd Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 hefyd yn ychwanegu nifer o ddarpariaethau i'r Ddeddf Pensiynau 2004 yn ymwneud â llywodraethu cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ac yn benodol, gwrthdaro buddiannau.

Mae Adran 90A yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gyhoeddi cod ymarfer perthnasol i wrthdaro buddiannau i aelodau bwrdd pensiwn. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi cyhoeddi cod o'r fath ac mae'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau hwn wedi'i ddatblygu gan ystyried y cod hwnnw.

Yn ogystal, o dan adran 13, gall y Rheoleiddiwr Pensiynau gyhoeddi hysbysiad gwella (h.y. hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu er mwyn cywiro sefyllfa) lle'r ystyrir nad oes cydymffurfedd â'r gofynion sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau aelodau Bwrdd Pensiwn.

Cod Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau

Mae Adran 90A o'r Ddeddf Pensiynau 2004:

- yn caniatáu i'r Rheoleiddiwr Pensiynau i gyflwyno codau ymarfer yn cynnwys canllawiau ymarferol sy'n berthnasol i'r broses o weithredu swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth pensiynau perthnasol ac
- angen Rheoleiddiwr Pensiynau i gyflwyno cod ymarfer sy'n berthnasol i nifer o agweddau, un ohonyn nhw'n rheolaethau mewnol

Mae Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau yn cynnwys y modiwlau canlynol sy'n berthnasol i neu gyda chyfeiriad at reoli Gwrthdaro Buddiannau, sy'n berthnasol oherwydd gofynion cyfreithiol sylfaenol, neu'n arfer da ar gyfer cynlluniau pensiynau gwasanaethau cyhoeddus megis Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

- Gwrthdaro buddiannau
- Penodi a rôl y Cadeirydd
- Cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau
- Polisi tâl a threuliau
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth
- Rheoli ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth
- Adnabod, gwerthuso a chofnodi risgiau
- Adroddiadau sicrwydd ar reolaethau mewnol
- Asesiad risg eu hunain
- Systemau llywodraethu
- Gwneud penderfyniadau buddsoddi
- Penderfyniad i adrodd tor cyfraith

Mae'r modiwl Gwrthdaro Buddiannau yn nodi'r gofynion mewn perthynas â sut y dylai corff llywodraethu¹ ar gyfer cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus:

- adnabod, cofnodi (o fewn cofrestr buddiannau) ac adolygu gwrthdaro buddiannau wrth benodi ac ymhob cyfarfod y corff llywodraethu (e.e. Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau)
- rheoli gwrthdaro a lliniaru'r risgiau o benderfyniadau llygredig drwy fesurau rheoli priodol.

Egwyddorion Llywodraethu Cronfa Fuddsoddi CIPFA ar gyfer Canllawiau Awdurdod Gweinyddu CPLIL

Mae canllawiau egwyddorion llywodraethu CIPFA yn nodi "mae sefydlu trefniadau cronfa fuddsoddi yn creu ystod o rolau ychwanegol sydd gan aelodau pwyllgor, cynrychiolwyr, swyddogion ac ymgynghorwyr." Mae'n cynnwys rhai enghreifftiau o sut gall gwrthdaro buddiannau godi yn y rolau newydd hyn. Mae'n amlygu'r angen i awdurdodau gweinyddu:

- ddiweddarau eu polisiau gwrthdaro i ystyried cyfuno asedau;
- atgoffa pawb sy'n ymwneud â rheoli cronfa'r polisi gofynion a'r potensial i wrthdaro godi o ran cyfrifoldebau cyfuno asedau;
- sicrhau bod datganiadau yn cael eu diweddarau fel bo'n briodol.

Mae'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau hwn yn ystyried y posibilrwydd o wrthdaro yn codi o ran cyfuno asedau yn unol â chanllawiau egwyddorion llywodraethu CIPFA.

Deddf Llywodraeth Leol 2000

Mae'n rhaid i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gadw at God Ymddygiad Aelodau Sir y Fflint. Mae Rhan 3 o'r Cod hwnnw yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â budd personol, budd rhagfarnus a phersonol, eu datgelu a chyfyngiadau ar gyfraniad aelodau lle mae ganddynt fudd o'r fath.

Deg Egwyddor Arweiniol Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru bellach) egwyddorion y mae'n rhaid i aelodau etholedig awdurdodau lleol eu hystyried wrth ymgymryd â'u rôl fel aelod. Mae'r egwyddorion hyn yn seiliedig ar 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus oedd yn Adroddiad Nolan "Safonau Ymddygiad o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr." Ychwanegwyd tri arall at y rhain;

¹ Yn y Cod, mae corff llywodraethu cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddiffinio fel rheolwr y cynllun (sef Cyngor Sir y Fflint ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd), ac felly mae'r cyfrifoldebau wedi cael eu dirprwyo'n bennaf i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau).

dyletswydd i gynnal y gyfraith, stiwardiaeth briodol o adnoddau'r Cyngor a chydraddoldeb a pharch at eraill.

Mae adrannau unigol o'n Cod Ymddygiad (y mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ehangu i aelodau cyfetholedig Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac aelodau'r Bwrdd Pensiynau) wedi eu dylunio i gefnogi gweithrediad yr Egwyddorion. Er enghraifft, mae'r egwyddor Anhunanoldeb wedi'i chynnwys yn Adran 7 o'r Cod – Anhunanoldeb a Stiwardiaeth.

Roedd yr egwyddorion presennol wedi eu cynnwys mewn offeryn statudol a manylir isod. Mae nifer o'r egwyddorion yn rhan annatod o weithrediad llwyddiannus y Polisi hwn.

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Diffuantrwydd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth

Safonau Proffesiynol Ymgynghorwyr

Bydd yn ofynnol i nifer o ymgynghorwyr ddiwallu safonau proffesiynol sy'n ymwneud â rheoli gwrthdaro buddiannau, er enghraifft, bydd yr Actiwari Cronfa wedi'i gyfyngu i ofynion y Sefydliad a Chyfadrann Actiwariaid. Dylid darllen unrhyw brotocol neu ddogfen arall a luniwyd rhyngom ni ac ymgynghorydd mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau, boed fel gofyniad o gorff proffesiynol neu fel arall, ar y cyd â'r Polisi hwn.

Gofynion Eraill Awdurdod Gweinyddu

Aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau

Yn ogystal â gofynion y Polisi hwn, mae'n ofynnol i aelodau ac aelodau cyfetholedig gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Cyngor Sir y Fflint, sydd yn Rhan 3, yn cynnwys gofynion o ran datgelu a rheoli buddion personol a rhagfarnus.

Aelodau Bwrdd Pensiwn

Yn ogystal â gofynion y Polisi hwn, mae'n ofynnol i aelodau Bwrdd Pensiwn gydymffurfio â Rhan 8 o'r Protocol Bwrdd Pensiynau sy'n cynnwys datgelu unrhyw fuddiannau a all arwain at sefyllfa o wrthdaro.

Gweithwyr

Yn ogystal â gofynion y Polisi hwn, mae'n ofynnol i'n swyddogion gydymffurfio â Chod Ymddygiad Swyddogion Cyngor Sir y Fflint, sy'n cynnwys gofynion o ran datgelu a rheoli buddion personol a rhagfarnus.

Ymgynghorwyr

Rydym yn penodi ein hymgynghorwyr ein hun. Mae contractau a thelerau penodiad ar gyfer ein hymgynghorwyr allweddol yn ei gwneud yn ofynnol bod ganddynt eu polisiâu eu hunain mewn lle o ran sut fydd gwrthdaro buddiannau yn cael ei reoli yn eu perthnasau gyda'u cleientiaid a dylid rhannu hyn gyda ni cyn y penodiad.

Yn ogystal, dylai holl ymgynghorwyr ddarparu, ar gais, gwybodaeth i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ynglŷn â sut y byddant yn rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl mewn perthynas â darparu cyngor neu wasanaethau i ni. Gall hyn fod ar wahân i unrhyw ddiwydrwydd dyladwy, cyngor neu adroddiadau ysgrifenedig a gwblheir ar gyfer y Gronfa.

Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle gofynnir i'n hymgynghorwyr roi cyngor i Gyngor Sir y Fflint neu gyflogwyr eraill y cynllun, neu hyd yn oed i aelodau'r cynllun neu gynrychiolwyr aelodau fel yr Undebau Llafur, ynglŷn â materion pensiwn. Yn yr un modd, gall ymgynghorydd gael ei benodi i awdurdod gweinyddu arall sy'n ymwneud â thrafodion sy'n cynnwys Cronfa Bensiynau Clwyd a lle mae angen cyngor neu i gyflenwr neu sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i Gronfa Bensiynau Clwyd. Bydd disgwyl i'n hymgynghorydd godi gwrthdaro buddiannau posibl gyda ni, yn unol â'r polisi hwn, ac er y gallai cwmni'r ymgynghorydd dderbyn penodiad y llall, gall yr ymgynghorydd unigol ond barhau i'n cynghori ni a phartïon eraill os nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau.

Lle mae'r Bwrdd Pensiynau yn penderfynu penodi ymgynghorydd, gall fod yr un unigolyn neu sefydliad a benodwyd i gynghori'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau neu swyddogion Cronfa cyn belled ag y gellir osgoi neu reoli unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng y ddwy rôl i foddhad Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Ymddygiad mewn Cyfarfodydd

Efallai y bydd yna amgylchiadau lle mae cynrychiolydd cyflogwyr neu aelodau yn dymuno rhoi barn benodol ar ran cyflogwr (neu grŵp o gyflogwyr) neu aelod (neu grŵp o aelodau). Rydym yn gofyn i unrhyw unigolyn sy'n dymuno siarad o safbwynt cyflogwr neu aelod i nodi hyn yn glir e.e. mewn Bwrdd Pensiynau neu gyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau, a bydd hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnodion.

Polisi Gwrthdaro Buddiannau Partneriaeth Pensiwn Cymry

Un o'r meysydd gwrthdaro posibl a gwmpesir gan y Polisi hwn yw cronni buddsoddiad. Buddsoddir cyfran o asedau Cronfa Bensiynau Clwyd trwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd (fel aelodau o'r

Cydbwyllgor Llywodraethu) ac uwch swyddogion y Gronfa sy'n aelodau o'r Gweithgor Swyddogion hefyd gydymffurfio â gofynion Polisi Gwrthdaro Buddiannau Partneriaeth Pensiwn Cymru² wrth gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Beth yw Gwrthdaro neu Wrthdaro Posibl a sut fydd yn cael ei reoli?

Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn diffinio gwrthdaro buddiannau fel budd ariannol neu fudd arall sy'n debyg o ragfarnu arfer swyddogaeth unigolyn.

Felly, gall gwrthdaro buddiannau godi pan fydd gan unigolyn:

- gyfrifoldeb neu ddyletswydd o ran rheoli neu ddarparu cyngor i'r gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gennym ni, ac

yn ogystal â:

- buddiant personol ar wahân (ariannol neu fel arall) neu
- gyfrifoldeb arall mewn perthynas â'r mater hwnnw,

achosi gwrthdaro posibl gyda'u cyfrifoldeb cyntaf. Gall gwrthdaro hefyd godi pan fo gan aelod o'r teulu neu gydweithiwr agos gyfrifoldeb neu fuddiant penodol mewn mater.

Mae rhai enghreifftiau o wrthdaro posibl wedi eu cynnwys yn Atodiad 1. Mae'r atodiad hefyd yn dangos lle bydd angen datgan buddiant rhagfarnus neu bersonol ar wahân ar gyfer aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau (gan gynnwys aelodau cyfetholedig) o dan God Ymddygiad Aelodau Cyngor Sir y Fflint. Fel y gwelir o'r enghreifftiau hyn, mae un o'r meysydd allweddol o wrthdaro posibl yn ymwneud â'r rolau deul sydd gennym fel yr Awdurdod Gweinyddu i Gronfa Bensiynau Clwyd a chyflogwr sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiynau Clwyd.

Byddwn yn annog diwylliant agored a thryloyw ac yn annog unigolion i fod yn wyladwrs, bod â dealltwriaeth eglur o'u rôl a'r amgylchiadau lle mae yna wrthdaro buddiannau, a sut y dylid rheoli gwrthdaro posibl.

Byddwn yn ystyried unrhyw fuddiant dwbl neu gyfrifoldebau a amlygwyd ac yn asesu effaith ar weithrediad cronfa bensiynau a llywodraethu da pe bai gwrthdaro buddiannau yn digwydd.

Mae ffyrdd y gellir rheoli gwrthdaro buddiannau yn cynnwys:

- yr unigolyn dan sylw yn ymwrthod rhag trafodaeth, gwneud penderfyniad neu ddarparu cyngor sy'n ymwneud â'r mater perthnasol
- yr unigolyn yn cael ei eithrio o'r cyfarfod(ydd) ac unrhyw ohebiaeth neu ddeunydd cysylltiol mewn cysylltiad â'r mater perthnasol (er enghraifft, adroddiad o gyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau)

² <https://partneriaethpensiwnymru.org/cyhoeddiadau/polisi-gweithdrefnau-a-gwrthdaro-buddiannau/>

- sefydlu gweithgor neu is-bwyllgor, heb gynnwys yr unigolyn dan sylw, i ystyried y mater y tu allan i'r cyfarfod ffurfiol (os yw'r cylch gorchwyl yn caniatáu hynny)
- penodi aelod annibynnol er mwyn helpu i sicrhau nad yw penderfyniadau wedi cael eu rhagfarnu gan wrthdaro buddiannau
- ymgynghorwyr yn cymryd y camau priodol i sicrhau nad yw unrhyw gyngor i ni wedi'i ragfarnu gan rôl ymgynghorol a gyflawnir gan gydweithwyr yn yr un cwmni i barti sy'n gysylltiedig â'r Gronfa lle nad yw eu buddiannau'n alinio gyda rhai ni.

Cyn belled ein bod (ar ôl derbyn unrhyw gyngor proffesiynol a ystyrir yn ofynnol) yn fodlon bod y dull rheoli yn foddhaol, byddwn yn ceisio osgoi'r angen i unigolyn orfod ymddiswyddo oherwydd gwrthdaro buddiannau. Fodd bynnag, lle ystyrir bod y gwrthdaro mor sylfaenol na ellir ei reoli'n effeithiol, neu lle mae aelod Bwrdd Pensiynau yn gwrthdaro buddiannau fel y diffinnir yn y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, bydd yn ofynnol i'r unigolyn ymddiswyddo o'r Pwyllgor, Bwrdd neu benodiad.

Mân Roddion

At ddibenion y Polisi hwn, nid oes angen datgan rhoddion fel crysau-t, beiros, bagiau sioeau masnach ac eitemau hyrwyddo eraill (yn amodol ar fwyafswm tybiannol o £50 yr eitem a gwerth mwyafswm cyffredinol o £100 gan gwmni unigol fesul digwyddiad) a gafwyd mewn digwyddiadau fel cynadleddau, digwyddiadau hyfforddiant, seminarau a sioeau masnach a gynigir yn deg i holl aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu'r digwyddiad. Fodd bynnag, dylai aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau fod yn ymwybodol y gallant fod yn destun terfynau is a gweithdrefn hysbysiad ar wahân yng Nghod Ymddygiad Aelodau Cyngor Sir y Fflint. Yn yr un modd gall ein swyddogion fod yn ddarostyngedig i derfynau is neu gyfyngiadau eraill o fewn polisiâu cyflogai'r Cyngor.

Cyfrifoldeb

Fel rheolwr cynllun Cronfa Bensiynau Clwyd, dylem fod yn fodlon bod gwrthdaro buddiannau yn cael ei reoli'n briodol. At y pwrpas hwn, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yw'r unigolyn dynodedig ar gyfer sicrhau fod y weithdrefn a amlinellir isod yn cael ei chyflawni.

Fodd bynnag, cyfrifoldeb pob unigolyn o fewn y Polisi hwn yw nodi unrhyw achosion posibl lle gall eu budd personol, ariannol, busnes neu fudd arall wrthdaro gyda'u dyletswyddau cronfa pensiynau.

Gweithdrefn Weithredol

Mae'n rhaid i holl unigolion lle mae'r polisi hwn yn briodol iddynt ddilyn y gweithdrefnau canlynol.

Fodd bynnag, dylid nodi ei bod yn ofyniad digyffelyb i holl aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau ac Aelodau Bwrdd Pensiwn ddilyn a chadw at ofynion Rhan 3 o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Sir y Fflint sy'n ymwneud â thrin a datgelu budd personol a rhagfarnllyd.

Yn unol â hynny, i'r aelodau hynny, efallai y bydd datgeliadau dan y polisi hwn **yn ychwanegol at** ddatgeliadau dan God Ymddygiad y Cyngor.

Beth sy'n ofynnol	Sut y gwneir hyn
Cam 1: Nodi buddiannau sydd neu fyddai'n gallu achosi gwrthdaro	Ar ôl eu penodi i'w rôl, mae'n rhaid i bob unigolyn ac ymgynghorwyr³ dderbyn copi o'r Polisi hwn a chwblhau Datganiad Cysylltiad sydd yr un fath neu'n debyg i'r un a gynhwysir yn Atodiad 2. Bydd y wybodaeth yn y datganiadau hyn yn cael eu casglu yng nghofrestr gwrthdaro buddiannau'r Gronfa Bensiynau mewn fformat tebyg neu'r un fath â'r hyn yn Atodiad 3.
Cam 2: Hysbysu parhaus a rheoli gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol	Ar ddechrau unrhyw Bwyllgor Cronfa Bensiwn, Bwrdd Pensiwn neu gyfarfod ffurfiol arall lle trafodir materion yn ymwneud â'r gronfa bensiwn, bydd y Cadeirydd yn gofyn i bawb sy'n bresennol, y mae'r Polisi hwn yn berthnasol iddynt, ddatgan unrhyw wrthdaro posibl newydd. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a hefyd yng Nghofrestr gwrthdaro buddiannau y Gronfa. Yn ogystal, bydd fersiwn diweddaraf o'r Gofrestr ar gael drwy Swyddog Llywodraethu i Gadeirydd pob cyfarfod cyn y cyfarfod hwnnw os bydd angen. Ar ddechrau cyfarfodydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd bydd eitem ar y rhaglen a fydd yn gofyn i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiant dan God yr Aelodau mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen. Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n credu fod ganddo ef neu aelod arall fuddiant posibl neu wirioneddol sy'n gwrthdaro, fel y diffinnir gan y Polisi hwn, ag eitem o fusnes mewn cyfarfod, roi gwybod i'r Cadeirydd a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd cyn y cyfarfod, os yn bosibl, neu ddatgan hynny'n glir yn y cyfarfod ar y cyfle cyntaf posibl. Dylai'r Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yna benderfynu a yw'r unigolyn â buddiant neu fuddiant posibl angen gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater perthnasol neu ymatal rhag pleidleisio ar y mater. Os bydd yna wrthdaro o'r fath y tu allan i'r cyfarfod mae'n rhaid hysbysu Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a lle mae'n ymwneud â busnes unrhyw gyfarfod, Cadeirydd y cyfarfod hwnnw hefyd. Bydd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd lle bo'n briodol, yn ystyried unrhyw gamau angenrheidiol i reoli'r gwrthdaro posibl neu wirioneddol.

³ Mewn rhai amgylchiadau lle mae risg isel iawn o sefyllfa o wrthdaro yn codi, neu lle mae gweithdrefn amgen a ystyrir yn briodol i reoli unrhyw sefyllfa o wrthdaro posibl, bydd y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau yn penderfynu nad oes angen i'r Gronfa benodi sefydliad trydydd parti i'w gynnwys yn y weithdrefn, er enghraifft, os oes contract ar gyfer cyflenwi deunyddiau swyddfa neu ddeunyddiau eraill.

	Lle darparwyd gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw wrthdaro posibl neu wirioneddol, gall Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ofyn am gyngor proffesiynol fel y bydd yn ystyried yn addas (fel cyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro) ar sut i fynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro a nodwyd. Mae'n rhaid cofnodi unrhyw wrthdaro posibl neu wirioneddol a'r camau a gymerwyd yng Nghofrestr Gwrthdaro Buddiannau'r Gronfa ac yng nghofnodion y cyfarfod os codwyd yn y cyfarfod.
Cam 3: Adolygiad cyfnodol o wrthdaro posibl a gwirioneddol	Bydd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn darparu copi o gofrestr gwrthdaro buddiannau Cronfa Bensiynau i bob unigolyn perthnasol o leiaf unwaith pob 12 mis. Bydd pob unigolyn yn cadarnhau bod eu gwybodaeth yn gywir neu'n amlygu unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud.

Monitro ac Adrodd

Dylid casglu a chofnodi pob datganiad ar Gofrestr Gwrthdaro Buddiannau'r Gronfa (gweler Atodiad 3 am fanylion ar fformat y gofrestr).

Er mwyn i ni gyflawni ein rhwymedigaethau i reoli a monitro gwrthdaro buddiannau posibl, rhaid i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiwn gynnwys eitem ar wrthdaro buddiannau ym mhob cyfarfod. Rhaid i'r Bwrdd Pensiwn hefyd gynnwys eitem ar wrthdaro buddiannau yn ei Adroddiad Blynyddol.

Gall unrhyw un weld Cofrestr gwrthdaro buddiannau'r Gronfa ar unrhyw bwynt ar unrhyw adeg. Bydd ar gael ar gais gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Er mwyn nodi a yw amcanion y Polisi hwn yn cael eu diwallu byddwn yn:

- adolygu'r Gofrestr gwrthdaro buddiannau yn flynyddol ac ystyried a fu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol nad oedd wedi eu datgan gynted â phosibl
- darparu ein canfyddiadau i'n Ymgynghorydd Annibynnol a gofyn iddynt i gynnwys sylwadau ar reoli gwrthdaro buddiannau yn eu hadroddiad blynyddol ar lywodraethu'r Gronfa bob blwyddyn

Risgiau Allweddol

Mae'r risgiau allweddol o ran darparu'r Strategaeth hon wedi'u hamlinellu isod. Gall pob un o'r rhain arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol a diffyg rheolaeth briodol. Bydd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn monitro'r rhain a risgiau allweddol eraill ac yn ystyried sut i ymateb iddynt.

- Hyfforddiant annigonol neu ddealltwriaeth wael o ran rolau unigolion ar faterion cronfa pensiynau
- Hyfforddiant annigonol neu fethu cyfleu gofynion y Polisi hwn

- Methiant gan unigolyn i ddilyn gofynion y Polisi hwn
- Absenoldeb yr unigolyn a enwebwyd i reoli agweddau gweithredol y Polisi hwn a diffyg dirprwy, neu'r unigolyn hwnnw'n methu cyflawni'r agweddau gweithredol yn unol â'r Polisi hwn
- Cadeirydd yn methu cymryd camau priodol pan amlygir gwrthdaro mewn cyfarfod
- Gwahaniaethau rhwng polisi llywodraeth leol a chanolog ac amcanion y Gronfa (er enghraifft cyfeiriad buddsoddi, neu ddehongliad o ddyletswydd ymddiriedol)

Costau

Bydd yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Polisi hwn yn cael eu talu'n uniongyrchol gan Gronfa Bensiynau Clwyd. Fodd bynnag, ni wneir unrhyw daliadau i unrhyw unigolion o ran unrhyw amser a dreuliwyd neu dreuliau datgelu neu reoli unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol o dan y Polisi hwn.

Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Cafodd y Polisi Gwrthdaro Buddiannau hwn ei adolygu a'i gymeradwyo'n fwyaf diweddar gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau ar 11 Medi 2024. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd neu'n gynt os bydd y trefniadau rheoli gwrthdaro neu faterion eraill ynddo yn haeddu ailystyriaeth, gan gynnwys os oes unrhyw newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Reoliadau neu Ganllawiau eraill sydd angen eu hystyried.

Gwybodaeth Bellach

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am unrhyw beth yn y Polisi Gwrthdaro Buddiannau hwn, cysylltwch â:

Philip Latham, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd
 Cyngor Sir y Fflint
 Neuadd Y Sir
 Yr Wyddgrug
 Sir Y Fflint
 CH7 6NA

E-bost: Philip.latham@siryfflint.gov.uk

Ffôn: 01352 702264

Atodiad 1: Enghreifftiau o Wrthdaro Buddiannau Posibl

Ardal	Enghreifftiau o Wrthdaro Buddiannau Posibl sy'n ymwneud â Phensiwn ⁴	Hefyd yn fuddiant personol neu sy'n rhagfarnu ⁵
Gweinyddu	a) Mae cynrychiolydd cyflogwr ar y Bwrdd Pensiynau yn cael ei gyflogi gan gwmni allanol y mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau gweinyddu pensiwn ac mae'r Bwrdd Pensiynau yn adolygu safonau'r gwasanaeth a ddarperir gan y cwmni hwnnw.	Na
	b) Gofynnir i'r unigolyn a benodwyd i ystyried anghydfod mewnol i adolygu achos sy'n ymwneud â ffrind neu berthynas agos.	Ydy
	c) Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ystyried prynu ei system cyflogau ei hun ar gyfer talu pensiynwyr, yn hytrach na defnyddio'r system cyflogau a ddefnyddir ar gyfer holl weithwyr y Cyngor. Disgwylir i'r Cyfarwyddwr Cyllid, sy'n gyfrifol am gyllideb y Cyngor i gymeradwyo'r adroddiad i fynd i'r Pwyllgor Pensiynau, fyddai'n arwain at ostyngiad sylweddol yn y costau ailgodi i'r Cyngor o'r Gronfa os cymeradwyir.	Na
	d) Gofynnir i swyddogion y Gronfa ddarparu adroddiad i'r Bwrdd Pensiynau neu'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau ar pa un a ddylid darparu'r gwasanaethau gweinyddu drwy gontract, os byddai hynny'n digwydd gall arwain at newid cyflogwr neu ansicrwydd swydd i'r swyddogion.	Na
	e) Mae gweinyddwr yn y Gronfa yn derbyn achos i gyfrifo budd-dal sy'n ymwneud ag aelod o'r teulu, ffrind agos neu gydweithiwr.	Ydy
	f) Mae uwch swyddog yn y Gronfa neu'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau yn aelod o'r teulu neu ffrind agos yr ymgeisydd ar gyfer swydd wag Swyddog Cronfa.	Ydy

⁴ Darperir yr enghreifftiau hyn ar gyfer dibenion enghreifftiol yn unig. Mae'r holl senarios yn gyffredinol ac yn achosion gwrthdaro cyffredinol posibl i gronfeydd pensiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eu rheoli. Mae'n bwysig cydnabod hyn, oherwydd os na chaiff ei ganfod yn gynnar, ei gofnodi a'i liniaru, gall wrthdaro posibl ddod yn un gwirioneddol.

⁵ Mae hyn yn dangos y buddiannau hynny y mae'n rhaid i aelodau o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau eu datgan yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau Cyngor Sir y Fflint.

Cyflogwyr	g) Gall cynrychiolydd cyflogwr a gyflogir gan yr Awdurdod Gweinyddu, ac a benodir i'r Bwrdd Pensiynau i gynrychioli cyflogwyr yn gyffredinol, fod â buddiant os bydd yn gweithredu er lles yr Awdurdod Gweinyddu yn unig, yn hytrach na'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan. Yn yr un modd, gall aelod sy'n gynrychiolydd fod â buddiant, sydd hefyd yn gynrychiolydd undeb llafur, a benodwyd ar y Bwrdd Pensiwn i gynrychioli'r cynllun cyfan os bydd nhw ond yn gweithredu er budd eu hundeb ac aelodaeth undeb, yn hytrach na holl aelodau'r cynllun.	Na
	h) Mae gan gynrychiolydd cyflogwr fynediad at wybodaeth yn rhinwedd ei gyflogaeth, a allai ddylanwadu neu lywio ystyriaethau neu benderfyniadau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau neu'r Bwrdd Pensiynau. Mae'n rhaid iddo ef neu hi ystyried pa un ai i rannu'r wybodaeth hon o ystyried eu dyletswydd cyfrinachedd i'w cyflogwr. Byddant mewn sefyllfa o fod â buddiant oherwydd eu bod yn gwybod am y wybodaeth hon os yw'n debyg o ragfarnu eu gallu i ymgymryd â'u swyddogaethau fel aelod o'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau neu'r Bwrdd Pensiwn.	Na
	i) Gofynnir i uwch swyddog y Gronfa Bensiynau ddarparu cyngor technegol i gyflogwr cynllun ynghylch contract allanol. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau am yr effaith ar y cyflogwr hwnnw a'u gofynion fel cyflogwr mewn perthynas â'r contract allanol. Mae'r uwch swyddog cronfa bensiwn hwnnw hefyd yn ymwneud (neu bydd yn ymwneud) â materion tebyg o safbwynt y Gronfa Bensiynau sy'n ymwneud â'r contract allanol hwnnw.	Na
Cyllid	j) Efallai y bydd aelod etholedig ar Bwyllgor y Gronfa Bensiynau angen darparu barn ar strategaeth ariannu a allai arwain at gynnydd yng nghyfraniad cyflogwr y mae ef yn ei gynrychioli.	Na
	k) Mae swyddog gyda budd cyflogwr mewn cyflogwr sy'n gadael, yn rhan o benderfynu swm y credyd gadael sy'n daladwy i'r cyflogwr hwnnw fel disgresiwn dirprwyedig y Gronfa.	Na
Llywodraethu	l) Gofynnwyd i swyddog y Gronfa roi arweiniad i'r Bwrdd Pensiynau Lleol ar gefndir eitem ystyriwyd yn y Pwyllgor Pensiynau. Gall fod yn sefyllfa o fuddiant posibl gan y gall y swyddog osgoi darparu manylion llawn, gan arwain at y Bwrdd heb wybodaeth llawn ac yn methu darparu barn llawn ar briodoldeb yr eitem Pwyllgor Pensiwn honno ai peidio.	Na

	m) Mae aelod o'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau neu swyddog o'r Gronfa ar bwyllgor/grŵp Partneriaeth Pensiynau Cymru ac mae mater yn cael ei ystyried fyddai o fudd i'r Gronfa Pensiwn neu'r Cyngor i raddau mwy na Chynghorau neu Gronfeydd eraill sy'n cyfrannu.	Na
Buddsoddiad	n) Mae aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau hefyd yn aelod ar fwrdd Rheolwr Buddsoddi y mae'r Pwyllgor yn ystyried ei benodi.	Ydy
	o) Mae ymgynghorydd y Gronfa yn barti i ddatblygiad strategaeth a all arwain at waith ychwanegol ar gyfer ei gwmni, er enghraifft, darparu rheolaeth ddirprwyedig neu ymddiriedol ar gyfer buddsoddiadau'r Gronfa neu ddarparu cymorth gyda monitro cyfamad cyflogwyr neu lle maent hefyd yn ymgynghorwyr i Bartneriaeth Pensiynau Cymru.	Na
	p) Mae un o swyddogion y Gronfa neu aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn gwahoddiad i gael cinio gyda Rheolwr y Gronfa sydd wedi cyflwyno cais fel rhan o'r broses dendro.	Na
	q) Mae gan aelod etholedig ar Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, sydd hefyd yn aelod o Gydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru, rôl yn ei awdurdod lleol mewn perthynas â seilwaith lleol, ac mae hwn yn fuddsoddiad posibl sy'n cael ei ystyried gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru y gallai'r Gronfa fuddsoddi ynddo.	Na
	r) Mae gan aelod etholedig ar y Pwyllgor Pensiynau rôl hefyd wrth wthio am ostyngiad carbon yn ardal eu hawdurdod lleol, sydd hefyd yn digwydd i'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer y Gronfa.	Na
	s) Mae uwch swyddog neu aelod etholedig yn y Cyngor yn cysylltu â swyddog gyda chyfrifoldeb dirprwyedig ar gyfer penderfyniadau buddsoddi i ystyried buddsoddiad lle mae gan y Cyngor fudd ariannol, neu fel rhan o'u rôl eu hunain, yn gweld cyfle am fuddsoddiad a fyddai o fudd i'r Cyngor.	Na

Atodiad 2: Datgan Buddiant sy'n ymwneud â rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint

Ticiwch fel bo'n briodol

Rwyf i, [rhowch enw llawn], yn:

- swyddog sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa ☐
- ymgynghorydd y Gronfa ☐
- aelod Pwyllgor Cronfa Bensiynau ☐
- aelod o'r Bwrdd Pensiwn ☐

Cronfa Bensiynau Clwyd ac rwy'n nodi isod o dan y penawdau priodol fy muddiannau, sy'n ofynnol i mi eu datgan o dan Bolisi Gwrthdaro Buddiannau Cronfa Bensiynau Clwyd. Rwyf wedi rhoi "dim" lle nad oes unrhyw fuddiannau o dan unrhyw bennawd.

Cyfrifoldebau neu fuddiannau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau

(rhestrwch a pharhewch drosodd os oes angen):

A) Yn ymwneud â mi

B) Yn ymwneud ag aelodau o'r teulu neu gydweithwyr agos

Ymrwymiad:

Rwy'n datgan fy mod yn deall fy nghyfrifoldebau o dan Bolisi Gwrthdaro Buddiannau Cronfa Bensiynau Clwyd. Rwy'n addo hysbysu'r Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd am unrhyw newidiadau yn y wybodaeth a nodwyd uchod.

Llofnodwyd _____ Dyddiad _____

Enw (LLYTHRENNAU BRAS) _____

Atodiad 3: Cronfa Bensiynau Clwyd Cofrestr Gwrthdaro Buddiannau Posibl a Gwirioneddol

Bydd yr holl wrthdaro buddiannau a adroddwyd yn cael eu cofnodi yn y cofnodion, a bydd cofrestr o wrthdaro yn cael ei chadw a'i hadolygu'n flynyddol.

Dyddiad adrodd	Enw'r Unigolyn	Rôl yr Unigolyn	Manylion y gwrthdaro	Gwrthdaro gwirioneddol neu bosibl	Sut yr hysbysir [1]	Cam Gweithredu [2]	Angen dilyn	Dyddiad Datrys

⁽¹⁾ e.e. datganiad ar lafar yn y cyfarfod, datgan gwrthdaro ysgrifenedig ac ati

⁽²⁾ e.e. tynnu allan o broses gwneud penderfyniad, wedi gadael y cyfarfod



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.